

**Cafodd yr ymateb hwn ei gyflwyno i ymgynghoriad y [Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) ar [Flaenoriaethau'r Chweched Senedd](#)**

**This response was submitted to the [Health and Social Care Committee](#) consultation on [Sixth Senedd Priorities](#)**

**HSC PSS 29**

**Ymateb gan: | Response from: Adferiad Recovery**



Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd Cymru yn ymgynghori ar ei Flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd

## *Ymateb gan Adferiad Recovery*

### **1. Amdanom ni**

**1.1** Mae Adferiad Recovery yn elusen Gymreig sydd newydd ei sefydlu, a hynny wedi i Adferiad Recovery, Hafal, CAIS a'r WCADA uno ar 1af Ebrill 2021. Mae Adferiad Recovery yn elusen ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd yn siarad ar ran pobl sydd ag afiechyd meddwl difrifol (gan gynnwys sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol a chyflyrau eraill sydd yn cynnwys seicosis neu'n colli dealltwriaeth), pobl sydd wedi eu heffeithio gan gaethiwed, a phobl sydd â sawl diagnosis, ac ar ran eu teuluoedd a gofalywyr, ynghyd â grŵp ehangach o bobl fregus yr ydym yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer.

**1.2** Mae Adferiad Recovery yn cael ei lywodraethu gan ei aelodau – sydd yn ethol ein Hymddiriedolwyr (sydd yn cynnwys cynrychiolaeth gref o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalywyr). Mae Adferiad Recovery yn darparu gwasanaethau ym mhob un o'r 22 sir yng Nghymru ac yn Swydd Gaerhirfryn.



## 2. Adferiad Recovery yn ymateb i'r ymgynghoriad

- 2.1** Ar y cyfan, mae Adferiad Recovery yn croesawu'r blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer y Chweched Senedd sydd wedi ei nodi gan y Pwyllgor, yn enwedig y blaenoriaethau sydd yn ffocysu ar fynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chymorth a gwasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl gan fod y rhain yn feysydd o bryder ar gyfer ein haelodau.
- 2.2** Fodd bynnag, rydym yn credu fod yna flaenoriaethau allweddol pellach y dylai'r Pwyllgor eu mabwysiadu yn ystod y Chweched Senedd.
- 2.3** Yn gyntaf, dylai fod yna flaenoriaeth ar gyfer cael **mynediad at wasanaethau i'r sawl sydd yn profi problemau caethiwed**, yn enwedig y sgil y cynnydd diweddar yn y nifer o bobl sydd yn profi problemau caethiwed gyda gamblo, alcohol a materion eraill.

Roedd Adroddiad HIW/CIW o wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau 2017 yng Nghymru wedi canfod fod mynediad ac amseroedd amser ar gyfer gwasanaethau ar draws Cymru yn anghyson ac weithiau wedi eu cyfyngu mewn ardaloedd gwledig, a bod amseroedd aros hir a diffyg capasiti mewn gwasanaethau yn golygu eu bod yn medru cael trafferth yn derbyn y driniaeth sydd angen arnynt.

Yn dilyn cyfnod pan y mae hyd yn oed mwy o bobl yn cael trafferth gyda phroblemau caethiwed, dylai mynediad at gymorth priodol fod yn uchel ar agenda'r Pwyllgor.

- 2.4** Yn ail, mae angen blaenoriaeth i **integreiddio gwasanaethau a darparu gwasanaeth holistaidd** i lawer o gleifion yng Nghymru ag afiechyd meddwl, problemau caethiwed neu anghenion cymhleth ac sy'n cyd-ddigwydd.

Yn aml, mae pobl ag afiechyd meddwl ond yn derbyn ychydig iawn o driniaeth ar gyfer problemau camddefnyddio sylweddau ac mae pobl sydd â phroblemau caethiwed wedi eu heithrio yn y gorffennol rhag derbyn gofal iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae'r fath anghenion yn rhyngweithio gyda'i gilydd, gan arwain at bobl i brofi problemau gwahanol ar y cyd.

Mabwysiadu dull cynhwysfawr ac integredig wrth ddarparu gofal yw'r ffordd orau i adeiladu bywyd newydd wrth wella o afiechyd meddwl, caethiwed ac anhwylderau eraill sy'n cyd-ddigwydd. Rydym angen dull newydd lle y mae'r GIG a'r cynghorau yn symud i ffwrdd o gomisiynu gwasanaethau mewn seilos. Yn hytrach na'n defnyddio cyflyrau i atal pobl rhag derbyn gwasanaethau, rydym angen comisiynu gwasanaethau deinamig sydd yn diwallu anghenion cymhleth dinasyddion Cymru.

Roedd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn nodi fod mabwysiadu dull holistaidd yn hanfodol: yn ystyried llety, gofal cymdeithasol, arian ayyb ynghyd ag anghenion iechyd meddwl os ydym am wneud unrhyw wahaniaeth i bobl sydd angen help. Y Chweched Senedd yw'r amser ar gyfer sicrhau bod y dull hwn nid yn unig yn cael ei weithredu'n gywir

ar gyfer cleifion iechyd meddwl eilaidd ond hefyd ar gyfer y sawl sydd â phroblemau caethiwed a chyflyrau eraill sy'n cyd-ddigwydd.

Mae angen sicrhau bod gwasanaethau wedi eu cydlynu a'u strwythuro er mwyn medru cynnig gwasanaeth sydd wedi ei deilwra ar gyfer yr unigolyn, yn hytrach na cheisio'n gwthio'r gwasanaeth ar y person. Dyna'r unig ffordd y bydd gwasanaethau yn adlewyrchu'r bobl y maent yn gwasanaethu, a dim ond wedyn y byddant yn hynod effeithiol.

## **2.5 Yn drydydd, mae angen blaenoriaeth i fynd i'r afael gyda'r stigma sydd yn effeithio ar gaethiwed ynghyd ag afiechyd meddwl.**

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus wrth fynd i'r afael gyda'r stigma sydd yn effeithio ar afiechyd meddwl, a hynny'n bennaf drwy ariannu'r ymgyrch gwrth-stigma Amser i Newid Cymru sydd yn cael ei chynnal gan Adferiad Recovery a Mind Cymru.

Heddiw, mae pobl yn teimlo'n fwy cysurus wrth siarad am broblemau iechyd meddwl, a hynny o'i gymharu gyda dau ddegawd yn ôl. Nid yw hyn yn wir am gaethiwed, ac yn enwedig i'r sawl sydd yn delio gyda nifer o gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd ac wedi profi problemau caethiwed ac afiechyd meddwl.

Un o'r blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw mynd i'r afael gyda'r stigma yma, oherwydd os oes yna gywilydd am unrhyw un o'r pethau yma, bydd pobl dal yn cuddio eu problemau ac yn osgoi cael mynediad at yr help hanfodol sydd angen arnynt.

## **2.6 Yn olaf, mae angen blaenoriaeth drawsbynciol er mwyn mabwysiadu dull Gofal Iechyd Darbodus wrth ddarparu'r holl ofal a thriniaeth.**

Yn dilyn y pandemig, rydym yn gwybod bod mwy o bobl yng Nghymru angen cymorth ar gyfer ar gyfer llesiant, iechyd meddwl a/neu broblemau caethiwed. Wrth gwrs, dylai unrhyw un sydd angen help dderbyn atgyfeiriad positif at ffynhonnell briodol o gymorth ond mae hefyd yn hanfodol bwysig fod gwasanaethau arbenigol yn diffinio eu rôl yn eglur ac yn osgoi 'medicaleiddio' ymatebion normal i ddigwyddiadau bywyd.

Rydym yn croesawu blaenoriaeth Llywodraeth Cymru sef "Dim Drws Anghywir" oherwydd os bydd hyn yn cael ei weithredu'n gywir, bydd yn helpu osgoi plant a theuluoedd yn cael eu trosglwyddo o asiantaeth i asiantaeth. Ond mae angen mabwysiadu hyn ar y cyd gyda'r egwyddor o Ofal Iechyd Darbodus, a arloeswyd gan y Prif Weinidog pan oedd yn weinidog iechyd, sydd yn ceisio sicrhau nad yw pobl yn cael eu cefnogi ar lefelau uwch o ymyrraeth na'r hyn sydd angen arnynt.

Os yw'r llwybrau mynediad at wasanaethau yn gweithio'n effeithiol fel bod gwasanaethau arbenigol yn cael ffocysu ar y cleifion sydd eu hangen tra bod gwasanaethau cymorth eraill yn medru delio gyda phroblemau y mae'n fwy addas delio gyda hwy ar y lefel hon, dyma'r hyn sydd yn mynd i gael yr effaith fwyaf o ran gwella bywydau pobl.

## **3. Cyswllt**

Am fwy o wybodaeth am y pwyntiau uchod, cysylltwch os gwelwch yn dda:

Pennaeth Cyfathrebu

Adferiad Recovery  
Uned B3, Parc Technoleg  
Lakeside Ffordd y Ffenics,  
Llansamlet Abertawe SA7 9FE